Ymddiriedolaeth
Ddiwylliannol
Cultural Trust

# Amlinelliad Swydd

**Teitl Swydd:**
Cynorthwyydd Cymorth Hyfforddi

**Sail:**
Rhan Amser - 15 awr

*bydd angen gweithio ar benwythnosau yn ystod cyfnodau prysur.

**Cyflog:**
Gradd 8

**Statws:**
Parhaol

**Lleoliad:**
B-Leaf - Parc Gwledig Bryngarw

Wood-B - Parc Menter Tondu

**Yn atebol i:**
Arweinydd Garddwriaethol

**Yn atebol am:**
Amherthnasol

## Eich Rôl:

Darparu cefnogaeth i hyfforddeion gan hybu eu diogelwch a'u lles bob amser. Hefyd, cynorthwyo gyda darparu cyfleoedd hyfforddi ystyrlon i hyfforddeion a chyfrannu at hyrwyddo a datblygu'r cynhyrchion/gwasanaethau cysylltiedig

# Yn y swydd hon byddwch yn:

- Darparu cymorth ymarferol a chefnogaeth i hyfforddeion ar draws ein prosiectau anabledd dysgu (Wood-B a B-Leaf) yn ôl yr angen i annog eu cysur, eu diogelwch a'u lles personol.
- Cefnogi'r Swyddog Cymorth  a Chyflogadwyedd Hyfforddiant i hybu cyfleoedd hyfforddi a datblygu sgiliau cyflogadwyedd ar gyfer hyfforddeion.
- Darparu hyfforddiant i hyfforddeion mewn meysydd fel tirlunio, cynnal a chadw tir a garddwriaeth.
- Cyfrannu at ddarparu cyfleoedd datblygu i hyfforddeion drwy gynorthwyo cydweithwyr gydag asesiadau perthnasol a chynlluniau hyfforddi.
- Cyfrannu at ddatblygu a darparu cynhyrchion a gwasanaethau a ddarperir / crëwyd gan yr hyfforddai trwy wasanaeth cwsmeriaid effeithiol.
- Cyfrannu at asesu risg, arfarniadau a phrosesau eraill y gallai fod eu hangen ar gyfer hyfforddai unigol.
- Cyd-gysylltu â theuluoedd, gofalwyr ac asiantaethau eraill yn unol â chyfarwyddyd yr Uwch Swyddog Cymorth Hyfforddiant / Swyddog Cymorth Hyfforddiant.
- Bod yn gwbl gyfarwydd â Pholisïau Diogelu Awen a sicrhau eu bod yn cael eu cymhwyso yn ôl yr angen.

# Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Cyffredinol:

- Bod yn gyfrifol am eich diogelwch eich hun a diogelwch staff eraill ac unrhyw aelod o'r cyhoedd y gallai eich gweithredoedd a'ch anweithredoedd effeithio arnynt yn y gwaith
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu i gynnal eich datblygiad eich hun neu i wella cymhwysedd o fewn swydd
- Cynnal ac integreiddio ein pwrpas a'n gwerthoedd ym mhopeth a wnewch.
- Sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cwblhau yn unol ag ymrwymiad Awen i degwch, amrywiaeth, cynhwysiant yn ogystal ag arfer gorau a deddfwriaeth.
- Nid yw hwn yn ddatganiad cyflawn o'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n rhan o'r swydd hon, ac efallai y bydd yn rhaid ei amrywio i ddiwallu anghenion newidiol y busnes

# Manyleb Person

## Y Person (NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL **(H)**:

- Yn hyderus ac yn broffesiynol gyda'r gallu i ddelio'n effeithiol â hyfforddeion, cydweithwyr a'r cyhoedd **(H)**
- Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun yn ogystal â bod yn aelod allweddol o dîm **(H)**
- Diddordeb mewn garddwriaeth a chynnal a chadw tir a gwaith coed **(H)**
- Diddordeb yn y Sector Gofal a chefnogi unigolion mewn amgylchedd dysgu **(H)**
- Yn ddibynadwy ac yn berson y gellid ymddiried ynddo
- Agwedd hyblyg a rhagweithiol
- Ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid
- Meddwl ymlaen ac yn gallu cyfrannu at ddatblygiad Awen.
- .

awen

# Cymwysterau, Sgiliau, Galluoedd a Phrofiad:
## (NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL **(H)**:

- Safon dda o addysg, sy'n cyfateb i NVQ/ FfCCh 2, neu'r gallu i ddangos cymhwysedd trwy brofiad **(H)**
- Profiad o weithio mewn amgylchedd gofal **(H)**
- Y gallu i ymgymryd â thasgau corfforol sy'n gysylltiedig â gwaith coed, tirlunio, garddwriaeth, a chynnal a chadw tir **(H)**
- NVQ/ FfCCh 2 mewn Gofal neu barodrwydd i weithio tuag at y cymhwyster hwn **(H)**
- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig da
- Trwydded yrru lawn
- Y gallu i ymdrin yn ofalus â gwybodaeth sensitif a chyfrinachol
- Gallu cefnogi unigolion ag unrhyw anghenion gofal personol, wrth barchu urddas
- Y gallu i gymhwyso gwybodaeth berthnasol er mwyn hyfforddi a chefnogi eraill e.e. Hyfforddeion, Gwirfoddolwyr
- Tystysgrif Cymorth Cyntaf Cydnabyddedig
- Profiad mewn rôl gwasanaeth cwsmeriaid gan gynnwys delio ag arian
- Tystiolaeth a dealltwriaeth o wasanaethau Awen
- Gwybodaeth a phrofiad o waith coed/cynnal a chadw tir/garddwriaeth
- Y gallu i siarad Cymraeg